YN YMCHWILIAD COVID-19 Y DU

Gerbron y Gwir Anrhydeddus Farwnes Hallett D.B.E.

MODIWL 9

DATGANIAD AGORIADOL MODIWL 9 LLYWODRAETH CYMRU

---

1. Ym Modiwl 9, bydd yr Ymchwiliad yn ystyried ystod o faterion yn ymwneud â'r ymateb economaidd i'r pandemig, gan gynnwys y cymorth economaidd a ddarparwyd i fusnesau, cyflogeion, pobl hunangyflogedig, pobl agored i niwed a phobl ar fudd-daliadau, ac effaith ymyriadau economaidd allweddol ledled y Deyrnas Unedig.

2. Yn unol â'r ffordd y caiff cyfrifoldebau eu rhannu o dan y setliad datganoli, darparwyd cyfran helaeth o'r cymorth o ran swyddi a busnesau yng Nghymru gan Lywodraeth y DU. Roedd y cynlluniau hyn yn hanfodol i allu busnesau yng Nghymru i 'aeafgysgu', ac mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod ac yn gwerthfawrogi lefel y cymorth a ddarparwyd.

3. Fodd bynnag, mae gwersi i'w dysgu o ran y cymorth a ddarparwyd gan Lywodraeth y DU. Nid oedd fawr ddim ymgysylltu ynglŷn â chynllun a gweithrediad cynlluniau cymorth Llywodraeth y DU, a diffyg cymorth yng Nghymru pan oedd cynllun wedi cael ei ystyried yn ddiangen yn Lloegr. O ran y cymorth a ddarparwyd drwy gyllid canlyniadol, er bod mesurau megis ‘Gwarant Barnett' wedi helpu, roedd cryn ansicrwydd o ran graddfa ac amseriad y cyllid gan y Trysorlys i gefnogi ymateb Llywodraeth Cymru, a chollwyd cyfleoedd i gymhwyso hyblygrwydd arall.

4. Roedd y cynlluniau ategol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn allweddol o ran darparu cymorth economaidd, yn enwedig i fusnesau ac unigolion a orgynrychiolir yng Nghymru ac nad oeddent wedi elwa o gynlluniau cymorth amrywiol Llywodraeth y DU. Roedd cynlluniau Llywodraeth Cymru'n llwyddiannus o ran darparu cymorth angenrheidiol i'r rhai a oedd newydd fynd yn hunangyflogedig, i weithwyr llawrydd ac i eraill nad oeddent yn gymwys i gael cymorth gan Lywodraeth y DU.

5. Er gwaethaf llwyddiant yr ymyriadau economaidd yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod gwersi i'w dysgu. Ochr yn ochr ag ystyried y llwyddiannau a phennu'r hyn y dylid ei gadw pe byddai pandemig yn y dyfodol, mae Llywodraeth Cymru'n croesawu ystyriaeth yr Ymchwiliad o'r gwersi i'w dysgu a'r gwelliannau i'w gwneud i sicrhau (i) bod fframwaith cyllidol priodol ar waith sy'n gwarantu bod holl wledydd y DU yn gyfartal o ran eu gallu i ymateb i gefnogi economi eu gwledydd, a (ii) y darperir cymorth priodol i fusnesau, unigolion a gwasanaethau cyhoeddus er mwyn cyfyngu ar effaith unrhyw bandemig yn y dyfodol a chynorthwyo o ran adferiad economaidd yn ei sgil.

Cymwyseddau Deddfwriaethol Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru

6. Cedwir cymhwysedd deddfwriaethol dros bolisïau cyllidol, economaidd ac ariannol yn ôl i Lywodraeth y DU, yn yr un modd â materion sy'n ymwneud yn gyffredinol â hawliau a dyletswyddau cyflogaeth. Cafodd yr ymyriadau economaidd a'r pecynnau cymorth a roddwyd ar waith gan Lywodraeth Cymru eu gweithredu gan Weinidogion Cymru drwy ddefnyddio pwerau o fewn eu cymhwysedd gweithredol. Mae'r pwerau hyn yn deillio o sawl ffynhonnell, gan gynnwys adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud unrhyw beth y maent yn ei ystyried yn briodol i hybu neu wella llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol Cymru.

7. Yn yr un modd, cedwir cymhwysedd deddfwriaethol dros gynlluniau nawdd cymdeithasol yn ôl i Lywodraeth y DU, ac mae mwyafrif y budd-daliadau nawdd cymdeithasol yng Nghymru yn cael eu gweinyddu gan yr Adran Gwaith a Phensiynau neu Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi. Mae gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol, ac mae gan Lywodraeth Cymru gymhwysedd deddfwriaethol, i ddarparu grantiau a lwfansau ar yr amod nad ydynt yn dod o dan ddiffiniad cynlluniau nawdd cymdeithasol, ac yn unol â hynny mae Llywodraeth Cymru'n rhedeg ei system ei hun o grantiau a lwfansau mewn meysydd sy'n croestorri â chyfrifoldebau datganoledig, er enghraifft Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor neu Brydau Ysgol am Ddim.

8. O ran cynlluniau trafnidiaeth, mae'r ffordd y caiff pwerau eu rhannu yn fwy cymhleth. Mae'r trefniadau sy'n llywodraethu gwasanaethau rheilffordd a gwasanaethau trafnidiaeth eraill wedi'u nodi yn nhystiolaeth Llywodraeth Cymru. [1] I grynhoi:

[1] Datganiad Corfforaethol ENSR (Modiwl 9), paragraffau 34-43 (Rheilffyrdd) a 44-51 (Bysiau)

(a) O ran rheilffyrdd, o dan Ddeddf Rheilffyrdd 2025, roedd Gweinidogion Cymru'n rhannu cymhwysedd gweithredol i ddarparu cymorth ariannol ar gyfer y rheilffyrdd, ond mae pŵer Gweinidogion Cymru o dan adran 10 y Ddeddf honno, i ddarparu cymorth ariannol i unrhyw unigolyn at ddibenion darparu, gwella neu ddatblygu gwasanaethau neu asedau'r rheilffyrdd dim ond ar gael lle mae'r cymorth hwnnw'n ymwneud â gwasanaethau Cymru neu â chytundeb masnachfraint yr oedd Gweinidogion Cymru yn rhan ohono. At ddibenion presennol, roedd yr unig wasanaethau rheilffyrdd cyhoeddus o fewn cyfrifoldebau statudol Llywodraeth Cymru yn rhan o Fasnachfraint Cymru a'r Gororau. Ar gyfer gwasanaethau rheilffyrdd eraill, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth oedd yr awdurdod masnachfreinio perthnasol (a'r unig awdurdod masnachfreinio).

(b) O ran cymorth bysiau, mae cymhwysedd gweithredol yn nwylo Gweinidogion Cymru a Gweinidogion y DU. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau a chyfrifoldebau penodol dros ariannu a sicrhau darpariaeth gwasanaethau lleol a chenedlaethol yng Nghymru, ond Gweinidogion y DU sy'n gyfrifol am y gyfundrefn reoleiddio cerbydau gwasanaeth cyhoeddus ehangach. Er bod gweithredwyr gwasanaethau bysiau (ymhlith eraill) wedi elwa o gymhwysedd cyffredinol Gweinidogion y DU i ddarparu cymorth ariannol i bobl a sefydliadau yng Nghymru, dim ond Llywodraeth Cymru oedd yn gyfrifol am weithredu swyddogaethau penodol yn ymwneud â chymorth i wasanaethau bysiau lleol a chenedlaethol.

Cyfyngiadau Ariannol ar yr Ymateb Economaidd

Y Fframwaith Cyllidol a Chronfeydd a Ddarparwyd yn Uniongyrchol i Lywodraeth Cymru

9. Mae'r Ymchwiliad wedi casglu tystiolaeth sylweddol ynghylch y fframwaith cyllidol sy'n llywodraethu gwariant cyhoeddus yn y DU. Trysorlys EF sy'n rheoli lefel gyffredinol gwariant o'r fath: caiff cyfran o gyfanswm y cronfeydd a godir yn y DU ac a neilltuir ar gyfer gwariant cyhoeddus, ar ôl addasiad, ei dyrannu i Lywodraeth Cymru drwy'r 'Grant Bloc'. Mae hyn yn cynrychioli tua 80% o adnodd ariannol blynyddol Llywodraeth Cymru. Daw gweddill cyllid Cymru o'r trethi datganoledig – Cyfraddau Treth Incwm Cymru, y Dreth Trafodiadau Tir, y Dreth Gwarediadau Tirlenwi a'r Ardrethi Annomestig.

10. Nid oedd defnyddio'r holl bwerau codi trethi datganoledig hyn er mwyn darparu cyllid ychwanegol yn opsiwn hyfyw yn ystod y pandemig oherwydd effaith economaidd negyddol

ddifrifol COVID-19. Byddai cynyddu trethi mewn amgylchiadau economaidd mor anodd wedi peri risg o ran gwaethygu'r niwed i'r economi ac wedi codi dim ond hyn a hyn o refeniw ychwanegol. Felly, nid oedd modd i Lywodraeth Cymru gynyddu'r lefel ariannu'n sylweddol o ran ei ymateb i COVID-19 y tu hwnt i'r hynny a 'alluogwyd' gan symiau canlyniadol o gyllid Llywodraeth y DU ar gyfer ymyriadau Lloegr yn unig mewn meysydd datganoledig.

11. Caiff addasiadau i'r Grant Bloc eu pennu gan ddefnyddio fformiwla Barnett, sy'n cyfrifo o faint y bydd y grant yn newid yn sgil cynyddu neu leihau gwariant mewn meysydd sy'n swyddogaethau datganoledig yn Lloegr. Mae'r fformiwla'n ystyried y boblogaeth gymaradwy yng Nghymru ac i ba raddau y mae newidiadau i gyllid yn berthnasol i feysydd cymaradwy o fewn cyfrifoldeb datganoledig Llywodraeth Cymru. Yn ystod cyfnodau arferol, byddai Llywodraeth Cymru'n cael hysbysiad ffurfiol o symiau canlyniadol positif a negatif yn yr Amcangyfrifon Atodol yn hwyr iawn yn y flwyddyn ariannol (Ionawr neu (fel arfer) Chwefror). Mae symiau canlyniadol positif a negatif, fel ei gilydd, yn heriol, oherwydd gallant arwain at (i) golli cyfleoedd lle mae'r symiau canlyniadol positif yn fwy nag y gellir darparu ar eu cyfer yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru, neu (ii) arian yn cael ei adfachu gan Drysorlys EF yn hwyr yn y flwyddyn os oes symiau canlyniadol negatif.

12. Mae Cronfa Wrth Gefn Cymru yn caniatáu adneuo arian i'w gario ar draws blynyddoedd ariannol. Mae'n cael ei chapio ar £350 miliwn, gyda chyfyngiadau tynnu i lawr blynyddol o £125 miliwn o refeniw a £50 miliwn o gyfalaf. O gymharu â maint cyffredinol Cyllideb Cymru, sydd bellach yn fwy na £27 biliwn, mae'r rhain yn amlwg yn fach. Mae'r Fframwaith hefyd yn rhoi pwerau benthyca i Gymru, sydd wedi'u capio ar £150 miliwn y flwyddyn a £1 biliwn yn ei grynswth. Dim ond ar gyfer gwariant cyfalaf neu i ymdopi ag anwadalrwydd trethi y gellir defnyddio benthyca.

13. Cafodd y fframwaith cyllidol hwn ei gynllunio i'w ddefnyddio mewn senarios gweithredu busnes arferol. Ni chafodd ei ddylunio ar gyfer argyfwng economaidd megis pandemig. [2] At hynny, nid yw'r ffigurau y cytunwyd arnynt yn wreiddiol wedi cael eu diweddaru ers 2016, hyd yn oed at ddibenion chwyddiant. Mae'r pŵer i ddarparu cyllid ar gyfer ymateb economaidd i argyfwng yn nwylo Llywodraeth y DU yn unig, ac mae'n ofynnol i unrhyw wyriadau iddi wrth y fframwaith gael eu cymeradwyo gan Brif Ysgrifennydd y Trysorlys. Er

[2] Drakeford (datganiad Modiwl 9), paragraffau 25 ymlaen.

bod Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am wneud penderfyniadau yng Nghymru, yn sgil penderfyniad Llywodraeth y DU i ddefnyddio deddfwriaeth iechyd y cyhoedd, dim ond Trysorlys EF oedd yn y sefyllfa i ddefnyddio symiau mawr o gyllid ychwanegol (gan gynnwys ailddyrannu cyllid presennol) i ganiatáu ar gyfer creu cynlluniau cymorth cenedlaethol.

14. Fel y mae Llywodraeth Cymru bob amser wedi cydnabod, roedd graddfa'r cyllid a ddarparwyd gan Lywodraeth y DU yn ystod y pandemig yn sylweddol. Mae argymhellion Llywodraeth Cymru ynghylch y modd y gellid gwella hyn yn ymwneud yn gyffredinol â'r ffordd y cafodd y cymorth hwnnw ei ddarparu, gan gynnwys (i) y diffyg eglurder o ran y cymorth a oedd ar gael, yn enwedig ar ddechrau'r pandemig, (ii) yr ymgysylltiad a'r wybodaeth gyfyngedig gan neu ar ran Llywodraeth y DU, a (iii) ystyriaethau Trysorlys EF wrth arfer ei bwerau dros yr hyblygrwydd i'w gynnig i'r fframwaith cyllidol.

15. Yn nyddiau cynnar y pandemig, roedd yn aneglur pa lefel o gymorth ariannol a fyddai'n cael ei roi gan Lywodraeth y DU. Mae'n anochel bod hyn wedi golygu heriau sylweddol i Lywodraeth Cymru ac wedi effeithio ar ei gallu cychwynnol i lunio ei hymateb economaidd i'r pandemig. Cafodd pwysigrwydd eglurder o ran y cyllid a fyddai ar gael i Gymru ei gyfleu i Drysorlys EF ar y pryd, pan ddywedwyd: *"Mae'r Trysorlys mewn sefyllfa unigryw i alluogi neu atal y llywodraethau datganoledig rhag gwneud penderfyniadau amserol i ymateb i'r argyfwng hwn. Mae unrhyw oedi sy'n atal ein gallu i gymryd y camau pendant gofynnol yn cyflwyno ansicrwydd ychwanegol annerbyniol."* [3]

16. Roedd rhaid gwneud rhagdybiaethau ynghylch lefel y cyllid a oedd yn debygol o lifo yn sgil cyhoeddiadau Llywodraeth y DU, ac anogwyd Gweinidogion Cymru i beidio â gadael i'r ansicrwydd hwn arafu'r ymateb i'r pandemig. [4] Yn ystod galwad â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys a Gweinidogion Cyllid y Llywodraethau Datganoledig ar 18 Mawrth 2020, ailadroddodd Llywodraeth Cymru ei chais am fwy o ymgysylltiad gan Drysorlys EF, a chydnabu'r Prif Ysgrifennydd fod y broses gydlynu yn heriol iawn a mynegodd awydd i wneud yn well. [5]

17. Gan nad oedd mwy o ymgysylltiad nac eglurder, aeth Llywodraeth Cymru ati mewn modd rhagweithiol i geisio rheoli ei chyllid cyfredol (a thybiedig) drwy addasu cyllidebau portffolio

[3] Llythyr, 13 Mawrth 2020 [INQ000230760].
[4] Cofnodion y Cabinet, 16 Mawrth 2020 [INQ000048797].
[5] Nodyn o Alwad Ffôn, 18 Mawrth 2020 [INQ000336307].

unigol at ddibenion gwahanol i gynorthwyo'r ymateb[6] a sefydlu Siambr y Seren i fod yn gorff cynghori i sicrhau bod yr adnoddau a oedd ar gael yn cael yr effaith fwyaf posibl ac i sicrhau trosolwg strategol dros yr holl brif benderfyniadau gwariant. [7] Ar 25 Mawrth 2020, nododd Siambr y Seren £256.5 miliwn i'w ddefnyddio at ddibenion gwahanol a'i osod yng Nghronfa Ymateb COVID-19 a oedd newydd ei chreu.

18. Yn ystod y pandemig roedd angen mwy o ymgysylltiad gan Lywodraeth y DU a Thrysorlys EF, ond roedd hefyd angen hyblygrwydd cyllidebol a cyllidol. Gofynnodd Llywodraeth Cymru am hyn ar sawl achlysur (ar lafar ac yn ysgrifenedig[8]) gan gynnwys:

    (a) Mynediad llawn at yr adnoddau yn y Gronfa a'r gallu i ddwyn mwy o adnoddau a chyfalaf ymlaen yn y Gronfa ar ddiwedd y flwyddyn ariannol;
    (b) Y gallu i ddwyn ymlaen, ar ddiwedd y flwyddyn, fwy na'r terfyn cyffredinol o £350 miliwn ar y Gronfa;
    (c) Y gallu i newid o gyllidebau cyfalaf i gyllidebau refeniw, a'r opsiwn i ddefnyddio benthyca refeniw;
    (d) Cynnydd yn y terfyn benthyca cyfalaf blynyddol (o £150 miliwn) a'r terfyn cyfanredol (o £1 biliwn) i alluogi cymorth pellach i raglenni cyfalaf, os oedd angen;
    (e) Telerau ad-dalu mwy hyblyg ar gyfer cyfalaf Trafodion Ariannol.

19. Ar 23 Gorffennaf 2020, cytunodd Llywodraeth y DU i gyflwyno 'gwarant Barnett'.[9] Roedd hwn yn rhoi cadarnhad ymlaen llaw o lefel y cyllid ychwanegol y byddai Llywodraethau Datganoledig yn ei chael o ganlyniad i ymyriadau mewn ymateb i COVID-19 yn Lloegr. Er nad oedd wedi dileu'r ansicrwydd ynghylch darpariaeth cyllid canlyniadol i Gymru yn gyfan gwbl, cafodd effaith gadarnhaol sylweddol ar allu Llywodraeth Cymru i gynllunio a darparu ymyriadau mewn ymateb i COVID-19, gan gynnwys y weithred o ddarparu cymorth parhaus i fusnesau ac unigolion, a oedd yn ategu'r cymorth a ddarparwyd gan Lywodraeth y DU.

20. Fodd bynnag, nid oedd yn mynd i'r afael â'r holl hyblygrwydd cyllidebol arfaethedig a geisiwyd nac ychwaith natur gyfyngol y fframwaith cyllidol. Arweiniodd y diffyg hyblygrwydd hwn at Drysorlys EF yn adennill £155 miliwn oddi wrth Lywodraeth Cymru, a hynny oherwydd tanwariant o'r cyllid a ddarparwyd gan Lywodraeth y DU yn hwyr iawn ym

[6] E-bost, 20 Mawrth 2020, INQ000271458.
[7] Cylch Gorchwyl, INQ000066177.
[8] Gweler, er enghraifft, Llythyr, 3 Gorffennaf 2020 [INQ000066172].
[9] Nodyn o Alwad Ffôn, 23 Gorffennaf 2020 [INQ000066173].

mlwyddyn ariannol 2020-21 a gwrthodiad Trysorlys EF i ganiatáu i Lywodraeth Cymru newid refeniw ychwanegol yn gyfalaf. [10]

21. Yn gyffredinol, roedd cyfanswm y cyllid a gafwyd gan Lywodraeth Cymru yn effeithiol o ran sicrhau bod modd darparu pecyn cynhwysfawr a hael o gymorth i fusnesau ac unigolion yng Nghymru, a oedd yn ategu ymyriadau Llywodraeth y DU. Fodd bynnag, roedd yr ansicrwydd cychwynnol a'r ddibyniaeth ar ymrwymiadau a phenderfyniadau ariannol Llywodraeth y DU yn afresymol o rwystrol o ran gallu Llywodraeth Cymru i ymateb i'r argyfwng economaidd, yn enwedig yn ystod y cyfnodau cynharach. Roedd cyflymder y broses o wneud penderfyniadau a rhannu gwybodaeth am gyllid canlyniadol yn Lloegr yn aml yn effeithio ar ba mor gyflym y gallai Llywodraeth Cymru ymateb. Er enghraifft, roedd rhai cynlluniau cymorth busnes o dan y Gronfa Cadernid Economaidd yn cael eu hariannu'n rhannol gan gyllid canlyniadol o gynlluniau tebyg yn Lloegr. Roedd angen cael gwybod beth oedd lefel y cyllid canlyniadol hwn cyn y gellid gwneud penderfyniadau terfynol o ran lefel y cymorth a chyllid ychwanegol a oedd yn ofynnol. Er bod dibyniaeth o'r fath yn anochel pan fydd y cyllid yn ganlyniadol, roedd y diffyg ymgysylltiad ac eglurder ymlaen llaw yn golygu nad oedd modd, ar adegau, i brosesau gwneud penderfyniadau Llywodraeth Cymru fod mor ymatebol â phosibl.

Cynlluniau Llywodraeth y DU yng Nghymru

22. Fel y manylir uchod, roedd llawer o'r meysydd a oedd yn rhan o'r ymateb economaidd yn dod o dan y pwerau hynny a gedwir yn ôl i Lywodraeth y DU. Unwaith eto, mae Llywodraeth Cymru'n mynegi ei gwerthfawrogiad am yr ymyriadau economaidd a roddwyd ar waith ledled y DU i gynorthwyo a chefnogi swyddi, busnesau a phobl hunangyflogedig yng Nghymru.

23. Yn gyffredinol, roedd cynlluniau megis y Cynllun Cadw Swyddi a'r Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig drwy gyfnod Coronafeirws ("y Cynlluniau") wedi gweithio'n dda. Roeddent yn llwyddiannus yng Nghymru o ran atal cyflogwyr rhag cau, cadw swyddi, a chefnogi gwariant aelwydydd. Yng Nghymru, roeddent yn arbennig o bwysig i'r sector lletygarwch lle y mae'n debygol y byddai llawer mwy o bobl wedi colli eu swyddi a llawer mwy o fusnesau wedi cau fel arall.

[10] Evans (Datganiad Modiwl 9), paragraff 53 ymlaen.

24. Roedd bylchau lle roedd unigolion yn cwympo y tu allan i reolau cynlluniau'r DU, er enghraifft y rhai nad oeddent wedi dechrau masnachu tan ar ôl 31 Mawrth 2019 ac nad oeddent yn gymwys ar gyfer y Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig drwy gyfnod Coronafeirws. Gan fod mwy o unigolion hunangyflogedig yng Nghymru ar gyfartaledd, roedd gan y bylchau hynny y potensial i gael mwy o effaith nag yn Lloegr. Lle bo'n briodol, ceisiodd Llywodraeth Cymru lenwi'r bylchau hynny â'i hymyriadau ei hun, ac eir i'r afael â hynny isod.

25. Er gwaethaf eu llwyddiannau, cododd anawsterau tebyg o ran diffyg eglurder ac ymgysylltiad gan Lywodraeth y DU, ac o ran penderfyniadau Trysorlys EF ynghylch argaeledd y cynlluniau yng Nghymru yn unol ag ystyriaethau Lloegr.

26. Roedd diffyg ymwneud gan Lywodraeth Cymru yn y broses o gynllunio'r cynlluniau wedi cyflwyno rhai anawsterau o ran datblygu cymorth ategol mewn modd amserol i fusnesau ac unigolion. Roedd yn ofynnol i Lywodraeth Cymru aros am hysbysiad ffurfiol bod y prif benderfyniadau wedi cael eu gwneud cyn y gallai gadarnhau ei chynlluniau a'i phecynnau cymorth ei hun. Er bod Llywodraeth Cymru wedi gallu rhoi ei phecyn ei hun o gymorth ategol ar waith, byddai ymgysylltiad cynharach a llawnach â Llywodraeth y DU wedi sicrhau proses fwy adeiladol o'r dechrau. Byddai wedi galluogi Llywodraeth Cymru i fod yn rhagweithiol ac wedi galluogi cyhoeddiadau cydamserol, gan roi sicrwydd angenrheidiol yn ystod cyfnod o gryn ansefydlogrwydd.

27. Roedd adegau unigol pan ddarparodd Llywodraeth Cymru safbwynt Cymru, a ddylanwadodd ar newidiadau. Er enghraifft, yn dilyn sylwadau gan Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru mewn cyfarfodydd pedairochrog â'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol a'r Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol, gwnaed newidiadau i derfynau uchaf y Cynllun Benthyciadau Tarfu ar Fusnes yn sgil y Coronafeirws ar gyfer cwmnïau mwy o faint. [11] Fodd bynnag, prin oedd yr achlysuron hyn.

28. Cafodd y materion hyn yr effaith fwyaf amlwg ar allu Llywodraeth Cymru i wneud penderfyniadau pan ddaethpwyd â'r cynlluniau hyn i ben, yn enwedig yn ystod y cyfnod cyn 'y cyfnod atal byr' yng Nghymru ym mis Hydref 2020, a phan ymddangosodd yr amrywiolyn Omicon ar ddiwedd 2021.

[11] Nodiadau Cyfarfodydd, 17 Ebrill 2020 [INQ000626299] a 27 Ebrill 2020 [INQ000626300].

29. Ym mis Mai 2020, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y bwriad i ddod â'r cynlluniau i ben ar ddiwedd mis Hydref 2020. O ystyried y dulliau gweithredu gwahanol ar gyfer llacio'r cyfyngiadau a'r potensial i gael ail don (neu don bellach), gofynnwyd i'r Canghellor am eglurhad o ran a fyddai'r cynlluniau'n cael eu cau pe byddai sectorau amrywiol yn aros ynghau yng Nghymru a/neu pe byddai niferoedd uchel o achosion unwaith eto. [12] Ni chafwyd yr un ymateb erioed.

30. Ar 24 Medi 2020, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei chynlluniau i estyn y Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig, ac i gau'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws a chyflwyno'r Cynllun Cefnogi Swyddi newydd yn ei le, a hynny'n weithredol o 1 Tachwedd 2020.

31. Gwnaed cais i ddechrau'r cynllun newydd yn gynt yng Nghymru o ystyried y cyfnod atal byr a oedd i ddechrau ar 23 Hydref 2020. [13] Pan wnaeth y cais hwnnw, cynigiodd Llywodraeth Cymru ad-dalu'r costau ychwanegol a fyddai'n codi yn sgil ei roi ar waith yn gynnar. Cafodd y cais hwnnw ei wrthod ar 19 Hydref 2020,[14] gyda chyngor dros e-bost i'r Canghellor y diwrnod hwnnw'n awgrymu bod gan Lywodraeth y DU bolisi o beidio â darparu cymorth ariannol mewn sefyllfaoedd lle roedd "*gweinyddiaethau datganoledig [yn] mynd ymhellach na Llywodraeth EF o ran ymyriadau anfferyllol*". [15] Mae hyn yn amlygu gwahaniaeth o ran argaeledd cyllid y Trysorlys i gefnogi camau gweithredu Llywodraeth Cymru pan nad ydynt yn cyd-fynd â Llywodraeth y DU. Profwyd hyn ymhellach pan gyhoeddodd Llywodraeth y DU ei chyfyngiadau symud ei hun a fyddai'n dechrau ar 5 Tachwedd 2020, ac a gefnogwyd drwy ymestyn y cynllun presennol ar delerau gwell. [16]

32. Roedd diffyg argaeledd cyllid y Trysorlys i gefnogi prosesau gwneud penderfyniadau ynghylch iechyd y cyhoedd yng Nghymru hyd yn oed yn fwy clir adeg yr amrywiolyn Omicron. Erbyn yr adeg hon, nid oedd Gwarant Barnett na'r cynlluniau'n dal i fod ar gael i gefnogi unrhyw gyfyngiadau yr ystyriwyd eu bod yn briodol. Yn sgil cael tystiolaeth gan ei Phrif Swyddog Meddygol ynghylch trosglwyddadwyedd uwch Omicron a'i botensial i beidio ag ymateb i frechlynnau, gwnaeth Llywodraeth Cymru sawl cais am gadarnhad y byddai Trysorlys EF yn darparu cynlluniau cymorth ariannol i'r llywodraethau datganoledig pe

[12] Llythyr, 4 Mehefin 2020 [INQ000336761].
[13] Llythyr, 16 Hydref 2020 [INQ000216554].
[14] Llythyr, 19 Hydref 2020 [INQ000216555].
[15] INQ000397193.
[16] Furlough Scheme Extended and Further Economic Support announced - GOV.UK.

byddai angen mwy o gyfyngiadau yng Nghymru, hyd yn oes os nad oedd hynny'n cael ei ystyried yn angenrheidiol yn Lloegr. [17] Ni chafwyd unrhyw gadarnhad.

33. Cafodd gwrthodiad Trysorlys EF i arfer ei ddisgresiwn i gefnogi prosesau gwneud penderfyniadau Llywodraeth Cymru effaith uniongyrchol ar yr opsiynau a oedd ar gael i amddiffyn y sefyllfa o ran iechyd y cyhoedd yn wyneb yr amrywiolyn newydd. Datganodd cyngor y Grŵp Cynghori Technegol i'r Gweinidogion fod y gwaith modelu yn awgrymu, er mwyn cadw nifer y derbyniadau i'r ysbyty yn is nag yr oeddent yn ystod anterth y tonnau blaenorol, y byddai angen mesurau llym (megis y rhai yn Lefel Rhybudd 4) a fyddai'n sicrhau lleihad sylweddol mewn trosglwyddadwyedd. [18] Ystyriwyd na fyddai cyflwyno Lefelau rhybudd is yn debygol o gael effaith ddigon sylweddol i atal niwed sylweddol i'r gwasanaethau gofal.

34. Er gwaethaf hyn, a heb gadarnhad gan Drysorlys EF am argaeledd cymorth trwy'r cynllun ffyrlo (neu debyg), cydnabu na fyddai modd lliniaru niwed y cyfyngiadau yn yr un modd ag y gwnaed yn ystod y tonnau blaenorol, ac felly nid oedd modd ystyried y mesurau mwyaf llym. [19] Yn unol â hynny, cwtogwyd yn uniongyrchol ar allu Llywodraeth Cymru i weithredu ar y cyngor gwyddonol a oedd ar gael oherwydd ei anallu i ofyn am ailgyflwyno cynllun cymorth cyflogau yn yr un modd ag y gallai Llywodraeth y DU fod wedi ei wneud. Nid oes llawer o amheuaeth, pe byddai Llywodraeth y DU wedi ystyried ei bod yn briodol gosod mwy o amodau neu gyfyngiadau symud i gefnogi'r sefyllfa o ran iechyd y cyhoedd yn Lloegr, y byddai Trysorlys EF wedi sicrhau bod y cyfryngau ariannol i gefnogi hyn ar gael.

35. I'r perwyl hwnnw, mae Llywodraeth Cymru'n nodi casgliadau David Phillips, sef "*bod cynlluniau i ddod a'r cynllun ffyrlo i ben ar ddiwedd mis Hydref, a ganslwyd dim ond pan wnaed penderfyniad i osod cyfyngiadau symud ar Loegr ym mis Tachwedd, wedi effeithio ar amseriad a hyd y cyfnod atal byr yng Nghymru."* [20] Yn yr un modd, mae'n dod i'r casgliad "*Yn ystod ton Omicron, llwyddwyd i osgoi argyfwng difrifol dim ond pan ddaeth yn glir bod y cyfraddau marwolaeth yn aros yn isel (yn sgil y brechiadau), a chyhoeddodd ac ariannodd llywodraeth y DU gynllun grantiau ar gyfer Chwarter 1 2022".*

Ymyriadau Economaidd Allweddol Llywodraeth Cymru

[17] Er enghraifft, Llythyr, 29 Tachwedd 2021 [INQ000256922] a Llythyr, 15 Rhagfyr 2021 [INQ000321139].
[18] Cyngor y Grŵp Cynghori Technegol, 15 Rhagfyr 2021 [INQ000058972].
[19] Papur Adolygu y Cabinet, 21 Rhagfyr 2021 [INQ000057994].
[20] M9 Report, Devolved and Local Government funding – actions taken and lessons learned, Mai 2025.

36. O'r cychwyn cyntaf, nid bwriad Llywodraeth Cymru wrth ystyried ymyriadau economaidd perthnasol oedd cystadlu ag ymateb y DU, ond ei ategu drwy dargedu'r unigolion a'r busnesau hynny a oedd yn cwympo drwy fylchau'r ymyriadau hynny. O ystyried demograffeg economi Cymru, nodwyd bod hyn yn fwyaf tebygol o fod yn arbennig o berthnasol i'r rhai a oedd yn hunangyflogedig, mewn cyflogaeth dros dro, neu'n gweithredu yn yr economi anffurfiol. [21] Byddai Llywodraeth Cymru'n cyflwyno ei bod yn llwyddiannus i raddau helaeth o ran cyflawni'r amcan hwn, wrth i dros chwarter miliwn o grantiau gwerth mwy na £2.6 biliwn gael eu dosbarthu i ddiogelu busnesau a'u cyflogeion drwy ymyriadau economaidd Llywodraeth Cymru. [22]

37. Roedd amrywiol nodweddion economi Cymru o fantais ac o anfantais o ran y gallu i ymdopi ag effaith economaidd y pandemig. Nid oedd rhai o sectorau allweddol economi Cymru, er enghraifft twristiaeth, lletygarwch a gweithgynhyrchu, yn sectorau a allai drosglwyddo i weithio gartref. Roedd y sectorau hynny yr oedd gofyn iddynt fod yn bresennol yn y gweithle yn cyflwyno bregusrwydd tymor hwy yn ystod y cyfnodau hynny lle nad oedd modd dychwelyd i'r gwaith yn ddiogel.

38. At hynny, mae Cymru'n wlad hŷn o ran demograffeg, gyda chyfran hŷn o bobl hŷn sy'n gweithio. Mae ganddi hefyd gyfran uwch o unigolion di-waith ac unigolion ar absenoldeb salwch hirdymor, y mae angen mwy o gymorth arnynt i ddechrau gweithio. Roedd effaith y pandemig yn gwneud y broses hon o ddychwelyd i'r gwaith ar ôl cyfnod estynedig yn anos byth.

39. Fel y nodir uchod, ar gyfartaledd, roedd gan Gymru hefyd fwy o bobl hunangyflogedig a mwy o bobl ar gontractau dim oriau. Ym mis Mawrth 2020, roedd 210,000 o bobl hunangyflogedig yng Nghymru, a oedd yn cynrychioli 14.3% o'r holl bobl mewn cyflogaeth. [23] Roedd hyn yn golygu bod y cymorth ategol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru wedi gorfod canolbwyntio'n arbennig ar y sector hwn.

40. Fodd bynnag, ac er budd i'r economi, mae cyfran y bobl yng Nghymru sy'n gweithio mewn gwasanaethau cyhoeddus yn uwch nag yn Lloegr, a oedd yn fuddiol o ran adleoli cyflogeion y sector cyhoeddus i weithio mewn rolau'n ymwneud â'r pandemig, er enghraifft gweinyddu cynlluniau cymorth busnes. Roedd y broses adleoli hon wedi cadw unigolion mewn gwaith

[21] Papur Cabinet, 23 Mawrth 2020 [INQ000048815].
[22] Datganiad ESNR Corfforaethol (Modiwl 9), paragraff 334.
[23] Papur Polisi, 25 Mawrth 2020 [INQ000320771].

ac wedi osgoi dibyniaeth ar gymorth y sector preifat, a fyddai wedi golygu cost gyfatebol uwch.

Y Gronfa Cadernid Economaidd

41. Gweithredwyd y Gronfa Cadernid Economaidd mewn wyth cam rhwng mis Ebrill 2020 a mis Chwefror 2022. Datblygwyd y gronfa hon i roi cymorth uniongyrchol i fusnesau, mentrau cymdeithasol a sefydliadu'r trydydd sector yr effeithiwyd arnynt gan y cyfyngiadau a oedd ar waith. Ceisiodd pob cam dargedu'r rhai oedd â'r angen mwyaf, yn enwedig yn y sectorau manwerthu, lletygarwch a thwristiaeth, ac roeddent fel arfer yn cynnwys pecynnau cymorth gyda (i) grantiau cymorth busnes a ddarparwyd gan awdurdodau lleol (ar sail ardrethi annomestig gan amlaf) yn seiliedig ar effaith dybiedig, (ii) grantiau cymorth disgresiynol seiliedig ar gais i ategu grantiau awdurdodau leol neu ar gyfer y rheiny nad oeddent mewn eiddo ardrethadwy, a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, a (iii) cymorth pwrpasol ar gyfer meysydd nad oeddent yn cael eu cwmpasu gan yr uchod. Roedd yr olaf o'r rhain yn targedu busnesau newydd, canolfannau preswyl awyr agored, unig fasnachwyr a sectorau lletygarwch, gan ddefnyddio cyllid disgresiynol, amodol, seiliedig ar grantiau. Roedd y cronfeydd a sefydlwyd ar gyfer sectorau arbenigol yn cynnwys cynlluniau megis y Gronfa Adferiad Diwylliannol, a oedd yn cymhwyso egwyddorion a systemau tebyg i'r rhai a ddefnyddiwyd ar gyfer y Gronfa Cadernid Economaidd.

42. Roedd y gwaith o ddatblygu'r gronfa hon yn gofyn am ymgysylltiad rheolaidd rhwng Llywodraeth Cymru, cyrff cynrychioladol busnesau ac undebau llafur; roedd gwrando ar fusnesau a rhanddeiliaid yn hollbwysig. Yn sylfaenol i lwyddiant y gronfa oedd y cydberthnasau cadarnhaol a rannwyd â llywodraeth leol. Bu Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ac yn ymgysylltu â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac arweinwyr llywodraeth leol unigol drwy gydol ei hymateb i'r pandemig. Manteisiodd y cydberthnasau hyn ar systemau a gwybodaeth llywodraeth leol a oedd eisoes yn bodoli i weithredu a darparu cymorth ariannol mewn modd effeithlon o dan gylch gwaith y Gronfa Cadernid Economaidd. Roedd ganddi'r fantais sylweddol hefyd ei bod yn rhoi gwybodaeth uniongyrchol i Lywodraeth Cymru am faterion lleol penodol, ac roedd yn galluogi busnesau i gael gafael ar gymorth o ffrydiau cyfarwydd.

43. O ganlyniad i'r broses o'i chyflwyno fesul cam, roedd y gronfa'n gallu ymateb yn brydlon i unrhyw garfannau neu grwpiau nad oeddent yn gallu cael gafael ar gymorth. Un enghraifft

benodol lle gwelwyd hyn oedd yn achos gyrwyr tacsi, a wynebodd broblemau o ran eu cymhwystra fel unig fasnachwyr, ac roeddent yn anghymwys fel arfer ar gyfer cymorth llywodraeth leol gan nad oeddent yn gweithredu o eiddo. I fynd i'r afael â'r bwlch hwn a nodwyd, gweithredwyd elfen bwrpasol o'r gronfa ddisgresiynol a ddarparwyd gan lywodraeth leol er mwyn sicrhau mynediad cyfartal at gymorth gan ddefnyddio dogfennau cofrestru gyrwyr tacsi.

44. Roedd camau cynharach y gronfa wedi targedu cymorth cychwynnol, roedd y camau canol wedi hynny wedi targedu cymorth ar gyfer sectorau penodol neu gyfnodau penodol (er enghraifft y cyfnod atal byr a chyfyngiadau Rhagfyr 2020), a cheisiodd y camau diweddarach ganolbwyntio ar brosiectau adfer tymor hwy. Roedd hyn yn cynnwys sefydlu cronfa benodol ar gyfer grantiau seiliedig ar gyd-fuddsoddi i gynorthwyo o ran datblygu a thyfu busnesau fel rhan o'r adferiad economaidd. Crëwyd y cam olaf i ymateb i'r amrywiolyn Omicron.

45. Yn ystod yr wyth cam, darparwyd 31,936 o grantiau, a chyfanswm y gost oedd £362,340,820. [24] Llwyddwyd i fodloni'r amcanion dymunol, sef darparu cymorth ariannol yn gyflym i'r busnesau yr oedd arnynt ei angen a sicrhau gwerth am arian. O ganlyniad, roedd 94% o'r rhai a gafodd grantiau'n dal i fasnachu ym mis Mai 2024, gan gynrychioli cyfradd oroesi gryfach nag economi ehangach Cymru. [25] Gan gydnabod bod darparu'r fath lefelau cymorth ar y cyflymder a oedd yn ofynnol yn ystod y pandemig yn cyflwyno risgiau o ran gorariannu neu danariannu, ac yn golygu cyfyngiadau o ran y mesurau i'w cymryd i osgoi twyll, mae'r buddion a gyflawnwyd gan y Gronfa Cadernid Economaidd yn gwrthbwyso'r risgiau hyn yn llwyr.

Mesurau i Fynd i'r Afael â'r Risg o Dwyll a Gwallau

46. Roedd gweithredu cronfa o'r natur hon yn cyflwyno risgiau anochel o wallau a thwyll. Roedd y risgiau hyn yn amrywio o hawlwyr yn anwirio cyfrifon/dogfennau neu'n peidio â datgan rhyddhad ardrethi busnes, i roi gwybodaeth anghywir am daliadau neu ddyblygu taliadau lle'r oedd busnes eisoes wedi hawlio o ffynonellau eraill. Cyflwynodd yr angen brys am gymorth sefyllfa lle roedd lefel is o ddiwydrwydd dyladwy cyn yr hawliad yn ofynnol er mwyn cynnal cyflymder gofynnol y cynllun, ac yn unol â hynny ceisiodd Llywodraeth Cymru gyflwyno gweithdrefnau i liniaru'r risgiau uwch yr oedd hyn yn eu cyflwyno.

[24] Datganiad ESNR Corfforaethol (Modiwl 9), paragraff 332.
[25] Adroddiad Economic Intelligence Wales Report, Mai 2024, t.4 [INQ000591733].

47. Roedd y camau lliniaru a roddwyd ar waith yn cynnwys system adolygu, hunanddatgan cymhwystra ymlaen llaw, ac asesiadau cyflym o hawliadau. Cynhaliwyd yr adolygiadau unwaith yr wythnos ac un mis ar ôl gwneud hawliad, a hynny drwy 'broses adolygu poeth ac oer'. Cynhaliwyd archwiliadau sampl ar ffurf adolygiadau 'poeth' adeg cymeradwyo ac adolygiadau 'oer' wythnos yn ddiweddarach, gydag adolygiadau ychwanegol wedi hynny ar ôl 3, 6 a 12 wythnos. Dangosodd adolygiad a gynhaliwyd ar ôl camau un a dau o'r Gronfa Cadernid Economaidd y bu 647 o ddyfarniadau a 88 gwrthodiad neu ddim dyfarniad. O blith y dyfarniadau hynny, roedd 68.6% ohonynt yn rhai gwyrdd (sy'n golygu penderfyniad clir heb unrhyw gamau gweithredu neu ychydig o fân newidiadau), roedd 17.6% yn rhai oren (angen rhai addasiadau i'r cofnodion er mwyn gwneud penderfyniad/clirio'r dystiolaeth) a dim ond 5.1% oedd yn rhai coch (sy'n golygu y nodwyd problemau clir a'u bod yn flaenoriaeth ar gyfer gweithredu). [26]

48. Mabwysiadwyd dull gweithredu 'prosesu nawr, gwirio wedyn', gan ddefnyddio'r un egwyddorion a ddefnyddiwyd gan Gyllid a Thollau EF yn ei broses hunanasesu. Roedd y dull gweithredu hwn yn ei gwneud yn glir bod yr hawlydd yn gyfrifol am ddarparu gwybodaeth gywir ac y byddai yna ddiwydrwydd dyladwy ôl-weithredol ynghyd â chamau gorfodi (pe byddai'n ofynnol) wedi hynny. Galluogodd hyn yr hawlwyr i elwa'n gyflym o'r cymorth a oedd ar gael, ond roedd hefyd yn sicrhau y cynhaliwyd gwiriadau cydymffurfedd yn ôl-weithredol.

49. Gwnaed hawliadau ar-lein ac roedd datganiad wedi'i lofnodi gan y cwmni'n ofynnol. Roedd lefel y gwiriadau diwydrwydd dyladwy a gwblhawyd ar geisiadau a'r wybodaeth ategol y gofynnwyd amdani'n cyd-fynd yn uniongyrchol â lefel y grant a oedd yn cael ei hawlio. Gwiriwyd y wybodaeth a ddarparwyd yn erbyn ffynonellau swyddogol: Roedd staff Llywodraeth Cymru'n asesu hawliadau yn erbyn meini prawf y grantiau, roedd manylion cyfrifon banc yn cael eu gwirio yn erbyn gwasanaeth bancio Llywodraeth Cymru, a defnyddiwyd offer i wirio statws TAW, ynghyd â gwiriadau Tŷ'r Cwmnïau a gwiriadau Creditsafe ar hyfywedd. Cynhaliwyd gwiriadau gyda hwb diwydrwydd dyladwy Llywodraeth Cymru, sef offeryn digidol a ddatblygwyd i fod yn fodd i rannu gwybodaeth er mwyn cynorthwyo'r broses gwneud penderfyniadau, ac a oedd yn cynnwys gwybodaeth megis cyfeiriad, manylion cofrestru'r cwmni/elusen, manylion archwiliadau, cofnod o ddiwydrwydd

[26] [INQ000321154]

dyladwy, asesiadau, pobl sy'n peri pryder, gwerthwyr SAP a'r cofnod grantiau mwyaf diweddar.

50. Roedd hawliadau gan fusnesau mwy yn gofyn am 'banel' ychwanegol o aelodau o dîm adran yr economi i asesu'r hawliad yn unigol, ochr yn ochr â gwiriadau ychwanegol a wnaed ar gyfarwyddwyr, cyfrifon elw a cholled, a rhagolygon.

51. Bydd Llywodraeth Cymru'n cyflwyno bod yr holl brosesau hyn wedi llwyddo i leihau lefel y risg o dwyll a gwallau. Roedd 'Strategaeth Ymadael y Gronfa Cronfa Cadernid Economaidd' a luniwyd yn gynharach yn 2025, yn amlinellu'r ffaith mai'r gyfradd gwrthod gyffredinol ar gyfer hawliadau oedd 25%, gan ‘amlygu effeithiolrwydd y rheolaethau hawlio a ddefnyddiwyd cyn rhoi unrhyw ddyfarniad ac amlygu gwiriadau cadarn ymlaen llaw'. Nodwyd hefyd fod Pennaeth Gwrth-dwyll Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau na chanfuwyd unrhyw achosion o dwyll o ran y cynlluniau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, a'i fod yn ‘ystyried bod y rheolaethau a'r trefniadau canfod twyll a roddwyd ar waith gan y timau cyflawni yn drawiadol iawn’. [27]

52. Cadarnhaodd y strategaeth ymhellach fod y rheolaethau a weithredwyd gan y tîm cyflawni ar bob cam wedi atal nifer sylweddol o hawliadau gwallus rhag cael eu cymeradwyo. Er bod Llywodraeth Cymru wedi cefnogi'r Fenter Twyll Genedlaethol ac wedi rhoi manylion derbynyddion grantiau i Gyllid a Thollau EF at y diben hwn, ni chafwyd yr un atgyfeiriad gan y Fenter Twyll Genedlaethol ar gyfer unrhyw achosion yn ymwneud â'r Gronfa Cadernid Economaidd, fel yr oedd ar ddyddiad y strategaeth.

53. Yn olaf, mae cyfanswm o £2,407,056 wedi'i adennill o 76 o achosion gan Dîm Monitro Ar ôl Cwblhau y Gronfa Cadernid Economaidd, lle nad oedd y derbynyddion yn gallu dangos bod y grant wedi cael ei ddefnyddio yn unol â'r telerau ac amodau. [28] Mae hyn yn amlygu ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i fonitro ar ôl cwblhau er mwyn sicrhau bod yr holl arian a roddwyd o dan gymorth grant wedi cael ei ddefnyddio at y diben y cafodd ei ddarparu.

Cynllun Benthyciad Busnes Cymru COVID-19

[27] [INQ000591696]
[28] Datganiad ESNR Corfforaethol (Modiwl 9), paragraff 359.

54. Roedd Cynllun Benthyciad Busnes Cymru COVID-19 yn gynllun byrdymor, a ddatblygwyd ar y cyd â Banc Datblygu Cymru, a gynlluniwyd yn benodol i lenwi'r bwlch a adawyd gan Gynllun Benthyciadau Tarfu ar Fusnes yn sgil y Coronafeirws Llywodraeth y DU. O ganlyniad, roedd yn ymyriad am amser cyfyngedig a oedd yn weithredol rhwng 30 Mawrth 2020 ac 8 Ebrill 2020, ac a geisiodd roi cymorth ariannol ar unwaith i fynd i'r afael â thrafferthion o ran llif arian cyn i gynllun Llywodraeth y DU gael ei gyflwyno.

55. Darparodd y cynllun 1,331 o fenthyciadau a ddaeth i gyfanswm o £92 miliwn, gyda chyfradd ddiofyn o 6.3% ar ddiwedd mis Rhagfyr 2024 (sy'n sylweddol is na'r hynny a fodelwyd yn wreiddiol). I'r perwyl hwn, cyflawnodd ei amcan o ddarparu'n gyflym a galluogi busnesau i gael gafael ar gyllid cyn iddynt gael cymorth gan Gynlluniau Benthyciadau Llywodraeth y DU. Roedd defnyddio'r sgiliau a'r ddarpariaeth a oedd gan Fanc Datblygu Cymru eisoes yn arbennig o effeithiol ac effeithlon.

Cynlluniau Trafnidiaeth

56. Er mai'r prif ddull teithio yng Nghymru yw'r car preifat, roedd y defnydd o wasanaethau rheilffyrdd a bysiau'n dal i fod yn sylweddol cyn y pandemig. Roedd effaith COVID-19 ar y ddau ddull teithio'n sylweddol oherwydd bod y galw gan deithwyr wedi diflannu. Nod ymyriadau Llywodraeth Cymru yn y maes hwn oedd sicrhau yr arferai fod gan Gymru rwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus integredig cynaliadwy a bod hynny'n wir o hyd.

57. O ran gwasanaethau'r rheilffyrdd, cyflawnwyd hyn i ddechrau drwy'r Cytundeb Mesur Brys, a ataliodd dros dro y gofyniad ar Keolis Amey (y cwmni a oedd yn gweithredu'r trenau o dan y cytundeb masnachfraint) i fodloni rhwymedigaethau penodol ac a gymerodd le'r rhaglen daliadau er mwyn diffinio y byddai'r costau a'r risg o ran refeniw yn cael eu bodloni gan y llywodraeth. Argymhellwyd y dylid trosglwyddo'r risg i Weinidogion Cymru am hyd at chwe mis i ddechrau, gydag opsiwn i ymestyn hynny'n amodol ar gytundeb pellach. Cafodd y broses weithredu ei goruchwylio gan Fwrdd Rhaglen y Gwasanaethau a'r Seilwaith Rheilffyrdd.

58. Yn sgil ymestyn y Cytundeb Mesurau Brys i 6 Chwefror 2021, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am weithredu'r gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru i reolaeth gyhoeddus ar 7 Chwefror 2021, gyda Gweinidogion Cymru yn cymryd cyfrifoldeb (drwy Trafnidiaeth Cymru fel asiantaeth) am ddarparu'r gwasanaeth a oedd yn dod o dan fasnachfraint rheilffyrdd Cymru a'r Gororau yn flaenorol. Er bod y trosglwyddiad hwn i berchnogaeth gyhoeddus wedi

digwydd yn ystod y pandemig, mae wedi amlygu ers hynny fuddion perchnogaeth gyhoeddus a rheolaeth dros wasanaethau trafnidiaeth rheilffyrdd cyhoeddus. Mae mwy o reolaeth a thryloywder, cafwyd gwared ar faterion sensitif masnachol sy'n rhan annatod o'r system fasnachfraint a ddarperir gan y sector preifat, ac mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu'r gallu i fod yn ystwyth, yn hyblyg ac yn ymatebol i amgylchiadau newidiol. At hynny, amlygodd y pandemig allu Trafnidiaeth Cymru fel sefydliad a all gefnogi Gweinidogion, nid yn unig drwy weithredu rheilffordd, ond hefyd, ymhen amser, drwy chwarae rôl fwy o ran gwasanaethau bysiau a dulliau trafnidiaeth eraill.

59. O ran y sector bysiau, roedd Llywodraeth Cymru wedi gwneud llawer iawn o waith cyn y pandemig. Ffrwyth y gwaith hwnnw oedd cyhoeddi Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) ar 16 Mawrth 2020, mesur nad oedd modd bwrw ymlaen ag ef oherwydd y pandemig. Ym mis Mawrth 2020, cyflwynwyd y Gronfa Galedi ar gyfer y Sector Bysiau er mwyn rhoi cymorth ariannol i'r diwydiant bysiau a'r sector trafnidiaeth gymunedol. Yn yr un modd â'r Gronfa Cadernid Economaidd, chwaraeodd yr awdurdodau lleol rôl bwysig o ran gweinyddu grantiau o'r Gronfa Galedi. Roedd y Gronfa Galedi ar gyfer y Sector Bysiau wedi'i hanelu at weithwyr allweddol ac unigolion heb fynediad at gar i deithio i'r gwaith, ac roedd hefyd yn ceisio galluogi mynediad at fwyd a chyflenwadau meddygol hanfodol i bobl o'r fath.

60. Dilynwyd y Gronfa Galedi ar gyfer y Sector Bysiau gan ymyriadau'r Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau 1 ac yna'r Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau 1.5. Roedd bob un o'r rhain yn fesurau byrdymor a barodd ychydig fisoedd ac a fwriadwyd i fynd i'r afael â chapasiti cynyddol a galwadau a oedd yn esblygu wrth i'r cyfyngiadau gael eu codi. Bwriadwyd y Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau 2 i fod yn drefniant strwythuredig, hirdymor a fyddai'n sicrhau cymorth parhaus yn ystod y pandemig ac yn y cyfnod adfer wedi'r pandemig, ac yn trawsnewid dull Llywodraeth Cymru o ymdrin ag ariannu'r sector. Cafodd pob un o'r mesurau cymorth hyn eu goruchwylio gan Fwrdd Rhaglen Diwygio Bysiau Llywodraeth Cymru. Roedd Trafnidiaeth Cymru hefyd wedi gweithio'n agos gyda swyddogion o'r awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru.

61. Darparodd y bartneriaeth gyfunol rhwng yr awdurdodau lleol, Trafnidiaeth Cymru, y gweithredwyr gwasanaethau bysiau a Llywodraeth Cymru sylfaen dda ar gyfer gwaith yn ymwneud â bysiau yn y dyfodol. Yn y pen draw, roedd y cynlluniau perthnasol wedi achub diwydiant bysiau Cymru. Nodwedd bwysig o economi Cymru yw'r ffaith bod y ddarpariaeth bysiau'n ddibynnol ar fusnesau bach a microfusnesau (yn wahanol i'r system yn Lloegr).

Drwy ddarparu cymorth, parhaodd y busnesau bysiau i weithredu ac ni chollwyd yr un gweithredwr gwasanaeth bysiau yn uniongyrchol oherwydd y pandemig. Roedd y rhwydwaith a'r gwasanaethau cyhoeddus a ymddangosodd ar ddiwedd y pandemig yn cyd-fynd i raddau helaeth â'r hyn a oedd ar gael ar y dechrau.

Casgliad

62. Yn yr un modd ag o'r blaen, mae Llywodraeth Cymru'n barod i ddarparu unrhyw gymorth sydd ei hangen ar yr Ymchwiliad yn y Modiwl hwn.

10 Tachwedd 2025